

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2022

- YN BRESENNOL:** Cyngorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)
Cyngorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)
- Cyngorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes,
Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws ac R Meirion Jones
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfawryddwr Swyddogaeth Interim (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- YMDDIHEURIADAU:** Cyngorwyr Richard Dew ac Aled M Jones
- HEFYD YN BRESENNOL:** -
-

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 PENODIAD STAFF

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2022 bod rhestr fer wedi ei llunio ac yn dilyn hynny bod proses recriwtio tair cam wedi ei chynnal fel a gytunwyd o fewn y Pwyllgor Penodiadau a hynny fel â ganlyn:-

- Profion seicometrig a chyfweliad dilynol
- Cyfweliad proffesiynol efo'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth Interim (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.
- Cyfweliad ffurfiol â'r Pwyllgor Penodiadau

Roddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth Interim (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro adborth o'r cyfweliad proffesiynol i'r Pwyllgor Penodiadau.

Yn dilyn cyfweliad ffurfiol, **PENDERFYNODD y Pwyllgor Penodiadau benodi Mrs Debbie Jones i'r Swydd Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**